# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 8 Mehefin 2006
### Amser: 9.00am
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Diprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Rosemary Butler, AC Llafur (yn dirprwyo ar ran Janice Gregory, AC)
William Graham, AC Ceidwadwyr
Sandy Mewies, AC Llafur (yn dirprwyo ar ran Jane Hutt, AC)
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (yn breennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Wayne Cowley, Y Swyddfa Ffioedd
Catherine Morris, Swyddog Gweithredol Seneddol
Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau:**

Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

**Yn bresennol :**

Richard Wilson, Gwerth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar gyfer eitem 2.6)

**Yn arsylwi :**

Brian Davidge, Pennaeth TGCh
Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol
John Grimes, Rheolwr y Rhaglen Newid Strythurol

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniadau** |
| | |
| | Croesawodd y Cadeirydd Rosemary Butler, AC a Sandy Mewies, AC i'r cyfarfod yn ogystal â Richard Wilson a'r arsyllwyr eraill. |
| | |
| 1 | Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau a gododd ohonynt |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau y caiff cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2006 eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl ac erbyn 29 Mehefin 2006 fan bellaf. |
| | |
| 1.2 | Camau a gododd o'r cyfarfodydd blaenorol HC(2)-07-06(p1) |
| | |
| | Yr Ystafell Ysmygu<br><br>Dywedodd Dianne Bevan fod yr Awdurdod Cynllunio wedi dweud y byddai'n rhaid hysbysebu'r cais cynllunio am ychydig hirach na'r disgwyl. Fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar 19 Mehefin. Dywedodd hefyd fod cost y gysgodfa wedi codi.<br><br>Cafwyd trafodaeth fer ar gynllun y gysgodfa.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid holi i ba raddau y gellid addasu'r cynllun o fewn y cais cynllunio presennol. Os nad yw'n bosibl ei addasu, dylid ystyried gofyn i'r Awdurdod Cynllunio i ohirio penderfyniad er mwyn i Bwyllgor y Ty gael ystyried y cynllun ymhellach. Byddai'r eitem yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan |

| | |
|---|---|
| | Is-les swyddfeydd y BBC yn Adeilad y Cynulliad<br><br>Dywedodd Dianne Bevan fod y broblem yng nghyswllt is-les y BBC wedi'i datrys heb orfod newid y Rheolau Sefydlog. Roedd y BBC wedi cael gwybod. |
| 2 | **Eitemau i'w trafod** |
| 2.1 | Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth HC(2)-07-06(p2) |
| | Trafododd y Pwyllgor bapur yn ymwneud â Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth ac a ddylai staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad aros ar system ar ôl y gwahanu.<br><br>Dywedodd Gwen Parry fod angen dod i benderfyniad ar ôl ystyried penderfyniadau'n ymwneud â'r materion seilwaith a godir yn eitem 2.4 'Materion Gwahanu'n Ymwneud â Merlin' (HC(2)-07-06(p2)).<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylai staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ddod oddi ar Fewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth a dod yn rhan o seilwaith TGCh ar wahân ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a swyddogion. Byddai'r Pwyllgor yn trafod enw URL yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.<br><br>Camau i'w cymryd: Gwen Parry |
| 2.2 | Buddsoddwyr mewn Pobl HC(2)-07-06(p3) |
| | Trafododd yr Aelodau bapur yn ymdrin â safon newydd Buddsoddwyr mewn Pobl.<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty â'r argymhelliad yn y papur y dylid dechrau ar y gwaith paratoi i gael achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. |
| 2.3 | Hysbysebu swyddi gwag yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-07-06(p4) |
| | |

| | |
|---|---|
| | Trafododd y Pwyllgor bapur yn ymdrin â'r trefniadau presennol ar gyfer hysbysebu swyddi gwag yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad a ffyrdd posibl o wneud hynny yn y dyfodol.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r math o hysbysebion a ddefnyddir ac y dylid ymgynghori â'r Undebau Llafur ynghylch faint o hysbysebu allanol sy'n digwydd. Nododd y Pwyllgor y byddai angen i'r Comisiwn Cysgodol ystyried y mater, o bosibl, o gofio'r goblygiadau, o fis Mai 2007. |
| | |
| 2.4 | Materion gwahanu'n ymwneud â Merlin HC(2)-07-06(p5)<br><br>Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor yn gofyn am benderfyniad ar y ffordd ymlaen mewn perthynas â materion yn ymwneud â Merlin ar ôl y gwahanu.<br><br>Dywedodd Gwen Parry mai ym Mharc Cathays yr oedd y gweinyddion ar hyn o bryd. Roedd Pwyllgor y Ty eisoes wedi cytuno â chyngor yr Is-grwp TGCh y dylid hollti'r seilwaith TCGh yn llwyr ar ôl y gwahanu.<br><br>Trafododd yr Aelodau fanteision ac anfanteision symud y gweinyddion i Fae Caerdydd, ynghyd â chostau tebygol y cynnig. Dywedodd Gwen Parry y byddai symud y gweinyddion yn rhoi mwy o annibyniaeth a rheolaeth i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad na gwasanaeth generig wedi'i rannu â'r Llywodraeth. Dywedodd ei bod yn holi Merlin ar hyn o bryd ynghylch darparu gwasanaeth mwy addas ar gyfer yr Aelodau a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig i ehangu safle'r gweinyddion ym Mae Caerdydd a gwneud gwaith adeiladu cysylltiedig er mwyn creu seilwaith TGCh annibynnol llawn. Dywedodd Diane Bevan y byddai angen defnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn o bosibl i dalu am y gwaith o addasu'r adeilad a gosod y cyfarpar. |

| | |
|---|---|
| 2.5 | Switsfwrdd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad – ar ôl gwahanu’n weinyddol HC(2)-07-06 (p6)<br><br>Trafododd y Pwyllgor y trefniadau arfaethedig ar gyfer switsfwrdd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar ôl y gwahanu.<br><br>Cytunodd yr Aelodau â’r cynigion a amlinellwyd yn y papur, sef:<br><br>·1 dylid lleoli’r switsfwrdd, a’i reoli, yng nghanolfan Bae Colwyn ;<br><br>·1 dylid mabwysiadu dulliau integredig i sicrhau y byddai’r switsfwrdd yn derbyn pob galwad gan gynnwys y gwasanaeth Archebu a Gwybodaeth ym Mae Colwyn;<br><br>·2 dylid cael un rhif 0845 ar gyfer pob galwad i’r ganolfan alwadau;<br><br>·3 dylid ailgyfeirio galwadau y tu allan i oriau arferol i beiriant ateb a fyddai’n rhoi gwybodaeth am oriau agor y Cynulliad ac yn rhoi rhif i’w ddefnyddio mewn argyfwng; gallai’r tîm diogelwch ym Mae Caerdydd ateb galwadau o’r fath gan eu bod ar ddyletswydd 24 awr |

| | |
|---|---|
| | y dydd – 7 diwrnod<br>yr wythnos.<br><br>Dywedodd Owen John Thomas ei bod yn bwysig fod galwadau y tu allan i oriau arferol yn cael eu hateb yn ddwyieithog. |
| | |
| 2.6 | Trosglwyddo cyfrifoldeb dros y Senedd i Bwyllgor y Ty HC(2)-07-06(p7)<br><br>Trafododd Pwyllgor y Ty bapur yn ymdrin â throsglwyddo cyfrifoldeb dros y Senedd i Bwyllgor y Ty.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod rhywfaint o waith yn dal heb ei gwblhau yn y Senedd ac na ddylai'r Pwyllgor dderbyn cyfrifoldeb dros y Senedd nes bod y gwaith hwn wedi'i wneud.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor.<br><br>Cwynodd yr Aelodau fod y tymheredd yn y Senedd yn ystod y tywydd braf a gafwyd yn ddiweddar yn rhy uchel. Dywedodd Dianne Bevan y byddai peirianwyr am archwilio'r system y diwrnod canlynol ac y byddent yn addasu'r system. Gan fod cynllun y Senedd mor amgylcheddol sensitif, fodd bynnag, nid oedd bob amser yn bosibl sicrhau y byddai effaith unrhyw newidiadau'n amlwg ar unwaith.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud newidiadau i ostwng y tymheredd yn y Senedd.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan<br><br>Trafododd yr Aelodau ansawdd y sain yn yr ystafelloedd Pwyllgora llai. Dywedodd Richard Wilson y byddai ansawdd y sain yn y rhan honno o'r Senedd yn gwella ar ôl symud y paneli dros dro yn y Siambr.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylid ymchwilio i'r mater.<br><br>Camau i'w cymryd : Gwen Parry |

| | |
|---|---|
| 2.7 | Creu mwy o le yng Nghanolfan Gogledd Cymru HC(2)-07-06(p8)<br><br>Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor yn amlinellu'r dewisiadau o ran creu mwy o le yng Nghanolfan Gogledd Cymru.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y dewis cyntaf a argymhellwyd yn y papur ac i gael gwared ar y ddesg boeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad |
| | |
| 2.8 | Trosglwyddo arian Cyllideb 2006-07 HC(2)-07-06(p9)<br><br>Trafododd y pwyllgor gynigion i drosglwyddo arian Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2006/07.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi cynigion Clerc y Cynulliad i drosglwyddo arian fel y nodwyd yn y papur a doedd dim angen unrhyw newidiadau sylweddol eraill. |
| | |
| 2.9 | Absenoldeb tadolaeth i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad HC(2)-07-06(p10) |
| | Trafododd yr Aelodau bapur yn amlinellu'r trefniadau presennol i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad gymryd absenoldeb tadolaeth.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod gan Aelodau'r Cynulliad eisoes y rhyddid i ganiatáu cyfnod ychwanegol o absenoldeb tadolaeth os dyna'u dymuniad ac y gallai'r lwfans 'Costau Eraill ar gyfer Staff' dalu am hyn. |
| | |
| 3 | **Eitemau i'w nodi** |

| | |
|---|---|
| 3.1 | Cyfarfod yr Is-grwp TGCh HC(2)-07-06(p11)<br><br>Dywedodd William Graham nad oedd agenda'r Cyfarfod Llawn wedi argraffu'n iawn oddi ar wefan y Siambr ar y ddau ddydd Mercher diwethaf.<br><br>Dywedodd Dianne Bevan y byddai'n gofalu bod hyn yn cael ei gywiro ac y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan<br><br>Cyfarfod yr Is-grwp Adeiladau<br><br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2006 HC(2)-07-06(p12)<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gyfle da i ddiolch i Rosemary Butler am ei holl waith caled fel Cadeirydd Is-grwp y Celfyddydau gynt.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.<br><br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2006 HC(2)-07-06(p13) |
| 3.2 | Trafododd y Pwyllgor y trefniadau presennol ar gyfer ymwelwyr â'r Siambr a'r ffaith bod angen iddynt wneud hynny cyn 11.00am.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylai'r trefniadau presennol barhau ac y dylid parhau i ofyn i ymwelwyr ddod cyn 11.00am nes y byddai'r Is-grwp Adeiladau yn cyflwyno'i argymhellion.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.<br><br>Adroddiad ar Gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-07-06(p14)<br><br>Nododd yr Aelodau'r adroddiad.<br><br>Adroddiad misol Adnoddau Dynol HC(2)-07-06(p15)<br><br>Nododd yr Aelodau'r adroddiad.<br><br>Dangosyddion yn erbyn targedau HC(2)-07-06(p16) |

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Mynediad at wybodaeth HC(2)-07-06(p17)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Cafodd yr Aelodau drafodaeth fer ar atebolrwydd yr Aelodau mewn perthynas ag ymwelwyr â'r Cynulliad.

Gweithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol HC(2)-07-06(p18)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

Nododd yr Aelodau bod OAQ0010 a gyflwynwyd i'w ateb ar 17 Mai wedi'i ddosbarthu eisoes.

3.3 Nododd yr Aelodau bod OAQ0011 a gyflwynwyd i'w ateb ar 17 Mai wedi'i ddosbarthu eisoes.

Unrhyw Fater Arall

3.4

Busnes Brys Pwyllgor y Ty

Dywedodd Dianne Bevan efallai y byddai angen i'r Pwyllgor gyfarfod ar 22 Mehefin i drafod busnes brys yn ymwneud â chyllideb 2007/8. Byddai'r Aelodau'n cael gwybod cyn gynted â phosibl.

3.5

Camau i'w cymryd : Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

Rhaglen cymorth i weithwyr (papur a gyflwynwyd)

Yn ei gyfarfod ar 18 Mai, gofynnodd Pwyllgor y Ty i Dianne Bevan holi ynghylch costau a

3.6 manteision cyflwyno rhaglen cymorth i weithwyr.

Dosbarthwyd gwybodaeth yn y cyfarfod a dywedodd Dianne Bevan y byddai'n fuddiol

cyflwyno rhaglen cymorth i weithwyr yn ymwneud â lleihau absenoldeb salwch a hawliadau’n gysylltiedig â straen.

Cytunodd yr Aelodau y dylid cyflwyno rhaglen cymorth i weithwyr.

Arddangosfa o Ffotograffau’r Aelodau

Dywedodd Rosemary Butler y byddai arddangosfa o ffotograffau’r Aelodau yn cael ei gynnal eto cyn toriad yr haf.

3.7 Gweinyddion

Dywedodd William Graham na fu’r gweinyddion ar gael yn ystod dau benwythnos yn ddiweddar ac na chafwyd unrhyw rybudd.

Dywedodd Gwen Parry y byddai’n ymchwilio i’r mater ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

4 Camau i’w cymryd: Gwen Parry

4.1 Cyfieithu ar gyfer Aelodau

4.2 Dywedodd Gwen Parry fod dau aelod wedi gwario mwy na’u dyraniad cyllidebol ar gyfer cyfieithu.

Cytunodd y Pwyllgor na ddylai’r ddau Aelod gael arian ychwanegol, er y dylid paratoi papur ar gyfer y Pwyllgor pe bai angen ailedrych ar delerau’r cynllun.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Gorffennaf 2006

Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty.